# Ymateb gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol i argymhellion y grŵp llywio annibynnol yn adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, a gyhoeddwyd ar 3 Chwefror 2023

**23 Hydref 2023**

Cyflwyniad........................................................................................................ 2
Argymhellion ..................................................................................................... 3
Argymhelliad allweddol 1: Mabwysiadu agwedd strategol tuag at ddigonolrwydd chwarae ar draws holl feysydd polisi Llywodraeth Cymru. .................................... 3
Argymhelliad allweddol 2: Sicrhau bod offerynnau polisi Llywodraeth Cymru’n cynnwys mesurau i gefnogi gallu plant i wneud y gorau o gyfleoedd i chwarae. .... 7
Argymhelliad allweddol 3: Sicrhau bod unrhyw gynlluniau ar gyfer adfer wedi’r pandemig a’r argyfwng costau byw yn ystyried hawl plant i chwarae. .................... 9
Argymhelliad allweddol 4: Sicrhau bod cyllid ac adnoddau digonol ar gyfer gweithredu’r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol yn ei chyfanrwydd. ................................................................................................... 11
Argymhelliad allweddol 5: Cefnogi trosglwyddiad rhaglen wybodaeth i’r cyhoedd am yr hawl i chwarae. ........................................................................................ 14
Argymhelliad allweddol 6: Defnyddio’r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae’n ehangach i gwmpasu ystod eang o gyrff eraill. .................................. 15
Argymhelliad allweddol 7: Sicrhau bod yr hawl i chwarae wedi ei hymgorffori yn ddigonol mewn offerynnau a phenderfyniadau polisi strategol............................. 17
Argymhelliad allweddol 8: Sicrhau bod egwyddor chwarae fel mater o gyfiawnder gofodol yn cael ei chydnabod a’i deall trwy Bolisi Cynllunio Cymru. ..................... 18
Argymhelliad allweddol 9: Sicrhau bod safbwyntiau a phrofiadau plant yn hysbysu’r ffyrdd y mae cymdogaethau’n cael eu cynllunio a’u rheoli. .................................. 21
Argymhelliad allweddol 10: Sicrhau bod trefniadau diogelu digonol mewn lleoliadau gwaith chwarae. ................................................................................................ 23
Argymhelliad allweddol 11 Adolygu rheoliadau gwarchod plant a gofal dydd a gorchmynion sy’n ymwneud â gwaith chwarae. ................................................... 25
Argymhelliad allweddol 12: Datblygu isadeiledd strategol ar gyfer datblygu’r gweithlu gwaith chwarae. ................................................................................... 27
Argymhelliad allweddol 13 Sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer datblygu’r gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae. .......................................................... 30
Argymhelliad allweddol 14: Hyrwyddo pwysigrwydd chwarae a’r defnydd o diroedd ysgol fel ased cymunedol ar gyfer chwarae trwy’r polisi ysgolion bro. .................. 33
Argymhelliad allweddol 15: Cynyddu a gwella amserau chwarae ac egwyl mewn ysgolion. ........................................................................................................ 35

**Cyflwyniad**

Yn hydref 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae a hwyluswyd gan grŵp llywio allanol a oedd yn cynnwys arbenigwyr chwarae a gwaith chwarae traws-broffesiynol. Nod yr adolygiadoedd asesu lle mae Cymru erbyn hyn o ran y polisi chwarae a llywio'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru'n datblygu ac yn symud yr agenda chwarae yn ei blaen yn y dyfodol. Fe wnaeth yr adolygiad hefyd ystyried y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni ein gweledigaeth ar gyfer chwarae, ac a yw'r weledigaeth honno yn parhau i fod yn berthnasol. Amlinellodd y camau y mae angen eu cymryd i symud ymlaen â'r agenda chwarae er mwyn cyflawni'r weledigaeth.

Oherwydd yr angen i ymateb ar frys i bandemig Covid-19, cafodd yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae ei ohirio dros dro. Roedd ailgychwyn yr adolygiad yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a dechreuwyd cynnal cyfarfodydd y grŵp llywio unwaith eto ym mis Tachwedd 2021. Yn dilyn adborth gan aelodau, adolygwyd y cynlluniau i ganiatáu trafodaeth fwy manwl er mwyn llunio adroddiad terfynol eang sydd wedi'i fframio'n dda. Arweiniodd hyn at hwyluso'r gweithdai thematig canlynol gan Chwarae Cymru gyda chefnogaeth swyddogion o Lywodraeth Cymru:

- Thema 1: Aliniad deddfwriaeth allweddol sy'n effeithio ar yr hawl i chwarae
- Thema 2: Y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chyllid
- Thema 3: Cyfiawnder gofodol
- Thema 4: Darpariaeth a rheoleiddio gwaith chwarae
- Thema 5: Y gweithlu a chymwysterau
- Thema 6: Chwarae ac addysg

Gyda chefnogaeth y Grŵp Llywio, cydlynodd Chwarae Cymru y gwaith o ddrafftio'r adroddiad terfynol a'r papur cefndir a groesawyd gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Chwefror 2023.

Mae adroddiad y Grŵp Llywio yn cynnwys tabl o bymtheg argymhelliad allweddol, a ategir gan gerrig milltir awgrymedig ar sut y gellid cyflawni canlyniadau disgwyliedig y grŵp llywio.

Mae'r ymateb hwn gan y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn esbonio sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu bwrw ymlaen â'r argymhellion a'r cerrig milltir awgrymedig yn adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae, neu eu harchwilio ymhellach. Mae'r ymateb hefyd yn nodi'r camau a fydd yn cael eu cymryd i gyflawni canlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio.

## Argymhellion

**Argymhelliad allweddol 1: Mabwysiadu agwedd strategol tuag at ddigonolrwydd chwarae ar draws holl feysydd polisi Llywodraeth Cymru.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn.

Mae Gweinidogion Cymru yn cytuno bod hawliau plant yn gyfrifoldeb i bawb, a dyna pam mae plant a phobl ifanc yn cael eu hadlewyrchu mewn sawl portffolio ar draws Llywodraeth Cymru a'u bod yn bwysig iawn i ffordd o feddwl y Cabinet a'r gwaith o lunio polisïau. Mae'r cyfrifoldeb cyfunol hwn dros blant ar draws y Cabinet yn cefnogi Llywodraeth Cymru i weithio'n strategol ar draws meysydd polisi ac rhoi ffocws ar hawliau'r plentyn a'r hawl i chwarae.

Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn sefydlu Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Gyfleoedd Chwarae a fydd, er mwyn sicrhau parhad, yn cynnwys swyddogion polisi Llywodraeth Cymru y mae eu cylch gwaith yn gysylltiedig â chwarae. Roedd llawer o'r rhain yn aelodau o Fwrdd Prosiect yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Bydd y Bwrdd Gweithredu yn ymgysylltu â'r rhanddeiliaid perthnasol ar ddiwygiadau polisi sy'n gysylltiedig â Chwarae.

Bydd y Bwrdd yn cyfarfod bob chwe mis i adolygu'r camau y cytunwyd arnynt i gefnogi gweithredu'r argymhellion allweddol a wnaed yn adroddiad yr Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Bydd y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol yn rhoi diweddariad blynyddol ar y cynnydd a wnaed o ran bwrw ymlaen â'r gweithgareddau a amlinellir yn yr ymateb hwn, a disgwylir yr adroddiad cyntaf yn hydref 2024.

Bydd y Bwrdd Gweithredu yn goruchwylio'n strategol y gwaith o weithredu'r argymhellion sy'n ymwneud â'u meysydd polisi, ac yn cydweithio i sicrhau bod eu priod Weinidogion yn cael eu diweddaru ar unrhyw gamau gweithredu a gymerir i gyflawni canlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Mae chwarae'n cael ei ystyried yn strategol gan Gabinet Llywodraeth Cymru. Mae materion sy'n effeithio ar gyfleoedd i chwarae'n cael eu hystyried yn strategol yn natblygiad polisi Llywodraeth Cymru. Mae datblygiad polisi cenedlaethol yn cael ei fonitro yn erbyn y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

- Mae cyfraniad digonolrwydd cyfleoedd chwarae i bolisïau ac agendâu eraill yn cael ei gydnabod yn groyw mewn canllawiau a chynlluniau.

- Mae gwell cydweithrediad ar draws y sectorau gwaith ieuenctid a gwaith chwarae ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol.

- Mae aliniad polisi ar lefel leol yn cael ei gefnogi'n well, ac mae amrywiaeth cyd-destunau lleol yn cael ei ystyried mewn cynlluniau.

- Mae egin-bolisïau a pholisïau esblygol fel Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a chynlluniau sy'n mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur i gyd yn ystyried y materion sy'n effeithio ar chwarae.

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 1.1 | Dylai chwarae fod yn ganolog i bortffolio’r Gweinidog Cymreig sy’n gyfrifol am blant a phobl ifanc, gyda goruchwyliaeth o weithio traws-bolisi rhwng chwarae a meysydd polisi eraill. | Nid oes angen gweithredu.<br><br>Mae gan bedwar o Weinidogion Cymru gyfrifoldeb am blant yn eu portffolios:<br><br>• Y Dirprwy Weinidog Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>• Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Aelod o'r Cabinet)<br><br>• Y Dirprwy Weinidog Iechyd Meddwl a Llesiant<br><br>• Gweinidog y Gymraeg ac Addysg (Aelod o'r Cabinet)<br><br>Gan fod Llywodraeth Cymru a'i Chabinet wedi llofnodi Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), rhaid i bob cyngor i Weinidogion Cymru roi sylw i'r Confensiwn a hawliau plant. Mae'r cyfrifoldeb cyfunol hwn am blant ar draws y Cabinet yn cefnogi Llywodraeth Cymru i weithio'n strategol ar draws meysydd polisi ac yn sicrhau bod hawliau plant yn cael eu hadlewyrchu ar draws y llywodraeth, yn hytrach na rhoi plant i mewn i un maes portffolio. Rydym o'r farn bod hyn yn ddigonol i gydymffurfio â'r argymhelliad. | Amherthnasol |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | Amserlen<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 1.2 | Sefydlu strategaeth digonolrwydd chwarae traws-bolisi a grŵp monitro, sy’n cwrdd yn flynyddol i adolygu blaenoriaethau cenedlaethol. Bydd y grŵp yn cynhyrchu a monitro cynllun gweithredu yn erbyn argymhellion allweddol ac adrodd i’r Gweinidog. | Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn sefydlu Bwrdd Gweithredu mewnol ar gyfer yr Adolygiad o Gyfleoedd Chwarae. Bydd aelodaeth y Bwrdd Gweithredu'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o'r meysydd polisi allweddol. Caiff cyfarfod cyntaf y Bwrdd ei gynnal yn hydref 2023 a chynhelir cyfarfodydd bob chwe mis. Bydd rhanddeiliaid allanol allweddol yn cael eu gwahodd i fynychu'r cyfarfodydd, fel y bo'n briodol. | Tymor byr |
| 1.3 | Datblygu a chynnal polisi chwarae byw a dogfen mapio deddfwriaethau sy’n cefnogi a chynnal y cysylltiadau rhwng chwarae a meysydd polisi eraill ar lefel genedlaethol. | Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn adolygu ac yn adnewyddu'r polisi chwarae a'r dogfennau mapio deddfwriaeth a rannwyd gyda Grŵp Llywio'r Adolygiad Gweinidogol o Gyfleoedd Chwarae. Bydd y dogfennau hyn yn cael eu diweddaru bob chwe mis o leiaf a'u rhannu gyda'r Bwrdd Gweithredu. | Tymor byr |
| 1.4 | Dynodi eiriolwyr chwarae adrannol ar draws feysydd polisi. | Bydd aelodau'r Bwrdd Gweithredu yn enwebu cynrychiolwyr polisi Llywodraeth Cymru a fydd yn hyrwyddo pwysigrwydd chwarae yn eu maes polisi. | Tymor byr |
| 1.5 | Sicrhau bod deddfwriaeth digonolrwydd cyfleoedd chwarae’n cael ei chynnwys yn groyw mewn canllawiau polisi eraill er mwyn sicrhau craffu traws-bolisi yn genedlaethol a gweithredu traws-bolisi yn lleol. | Gofynnir i aelodau'r Bwrdd Gweithredu ystyried a ddylid cynnwys cyfeiriad at chwarae mewn unrhyw ganllawiau y maent yn eu cyflwyno neu'n eu diweddaru. Yn ogystal, mae swyddogion Polisi Chwarae yn cael cyswllt rheolaidd â meysydd polisi allweddol a, lle bo'n briodol, byddant yn argymell cynnwys digonolrwydd chwarae a phwysigrwydd chwarae mewn meysydd polisi allweddol. | Tymor byr |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 1.5<br>parhad | | Mae gwaith traws-bolisi eisoes yn cael ei weithredu, er enghraifft bydd y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn ymddangos yng nghanllawiau cyllid refeniw a chyfalaf y Gronfa Teithio Llesol ac Ysgolion Bro. | |
| 1.6 | Sicrhau bod polisïau newydd ac egin-bolisïau megis y Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol a chynlluniau sy'n mynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur yn cael eu hadlewyrchu mewn cyfarwyddyd digonolrwydd cyfleoedd chwarae a chynllun gweithredu Llywodraeth Cymru. | Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn gweithio gyda chydweithwyr polisi ar draws Llywodraeth Cymru drwy'r Bwrdd Gweithredu i sicrhau bod unrhyw bolisïau newydd a pholisï sy'n dod i'r amlwg, lle bo'n berthnasol, yn ystyried digonolrwydd chwarae. | Tymor byr |

**Argymhelliad allweddol 2: Sicrhau bod offerynnau polisi Llywodraeth Cymru'n cynnwys mesurau i gefnogi gallu plant i wneud y gorau o gyfleoedd i chwarae.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn.

Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol wrth adolygu ac adnewyddu'r offer Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chanllawiau statudol ategol i gyflawni canlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Mae hawl plant i chwarae'n cael ei chydnabod fel thema sy'n traws-dorri o fewn meysydd polisi a rhaglenni a ariennir sy'n cael eu hanelu at blant, teuluoedd a chymunedau.
- Mae Awdurdodau Lleol yn cael eu cefnogi'n well i asesu a sicrhau cyfleoedd digonol i chwarae.
- Mae canfyddiadau ymchwil, adolygiadau o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a barn plant i gyd yn cael eu hymateb iddynt.
- Mae prosesau monitro'n adlewyrchu bod digonolrwydd cyfleoedd chwarae'n broses a'i fod yn ymwneud â chreu'r amodau ar gyfer chwarae, yn hytrach na dim ond darparu data meintiol.

| **Cerrig milltir awgrymedig** | | **Cam gweithredu** | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 2.1 | Adolygu, adfywio ac ail-lansio cyfarwyddyd statudol *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*. | Mae swyddogion Polisi Chwarae yn gweithio gyda Chwarae Cymru a'r Rhwydwaith Cenedlaethol Digonolrwydd Chwarae i adnewyddu'r Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Chwarae a'r canllawiau statudol ategol - [Cymru - Gwlad sy'n Gyfeillgar i Chwarae]() | Tymor byr |
| 2.2 | Diweddaru'r *Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae* i adlewyrchu datblygiadau diweddar yn y broses adolygu. Dylai hyn gynnwys offerynnau i ddatblygu a chyhoeddi asesiad | Gweler 2.1 | Tymor byr |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**:<br>erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**:<br>erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**:<br>erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 2.2<br>parhad | digonolrwydd cyfleoedd chwarae sy’n gyfeillgar at blant. Dylid hefyd gynnwys chwarae fel mater o gyfiawnder gofodol. | | |
| 2.3 | Datblygu cyfarwyddyd diamwys a diweddaru’r Templed Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, i sicrhau system adrodd gyson sy’n adlewyrchu amrywiaeth o gyd-destunau digonolrwydd chwarae ar draws awdurdodau lleol. | Yn unol â 2.1, byddwn yn gweithio gyda'r sector i ddatblygu templed wedi'i ddiweddaru a chanllawiau ategol. | Tymor byr |
| 2.4 | Defnyddio adolygiad yr Asesiadau Digonolrwydd Chwarae i dynnu sylw at faterion sydd wastad yn heriol i awdurdodau lleol sicrhau cynnydd arnynt (fel yswiriant, cynhwysiant, recriwtio, cymwysterau a chadw staff). | Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn amlinellu canfyddiadau'r Rhwydwaith Cenedlaethol Digonolrwydd CyflChwarae.  Byddant yn cyflwyno'r heriau y mae awdurdodau lleol yn dod ar eu traws wrth geisio cwrdd â'r 9 Mater Asesu Digonolrwydd Chwarae i Fwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Gyfleoedd Chwarae, gan awgrymu atebion posibl i'w hystyried. | Tymor byr |
| 2.5 | Dynodi a gweithredu ymyriadau sy’n cefnogi datrysiadau i’r heriau hyn (a restrir uchod). | Gweler 2.4 | Tymor byr |

| **Argymhelliad allweddol 3: Sicrhau bod unrhyw gynlluniau ar gyfer adfer wedi'r pandemig a'r argyfwng costau byw yn ystyried hawl plant i chwarae.** |
|---|

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi cryn bwys ar chwarae a'i bwysigrwydd i fywydau plant yn ein cymdeithas.

Mae mynediad at gyfleoedd chwarae o ansawdd uchel yn hanfodol ar gyfer datblygiad cymdeithasol, emosiynol a chorfforol pob plentyn a gall liniaru effeithiau negyddol tlodi ar fywydau plant a helpu i feithrin eu gwydnwch. Mae profiadau o'r fath o fudd i blant o ran eu hiechyd, eu hapusrwydd a'u lles, ac yn gosod y sylfaen ar gyfer cyrraedd eu potensial llawn fel oedolion. Maent hefyd yn cyfrannu at ddysgu, datblygiad a rhagolygon bywyd plant yn y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu cyhoeddi dadansoddiad Chwarae Cymru o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae 2022 "Cyflwr Chwarae" a'r adroddiad "Beth mae plant yn ei ddweud am chwarae yng Nghymru: 2022" a ddrafftiwyd gan David Dallimore. Bydd y tîm Polisi Chwarae yn adolygu'r camau a gymerwyd i gyflawni canlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Mae pwysigrwydd chware plant ar gyfer eu hiechyd a'u lles yn cael ei gydnabod.
- Mae cynaladwyedd gwaith chwarae'n cael ei ystyried a'i wynebu.

| **Cerrig milltir awgrymedig** | | **Cam gweithredu** | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 3.1 | Ystyried y gwaith arolygon a gynhaliwyd gyda phlant ar gyfer Asesiadau Digonolrwydd Chwarae ac astudiaethau eraill. | Bydd Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Gyfleoedd Chwarae yn ystyried ac yn lledaenu canfyddiadau allweddol yr arolygon a gynhaliwyd gyda phlant ar gyfer yr Asesiadau Digonolrwydd Chwarae ac astudiaethau eraill. | Tymor canolig |
| 3.2 | Ystyried canfyddiadau ymchwiliad y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol *Gofal plant a chyflogaeth rhieni: y pandemig a thu hwnt* i fynd i'r afael â | Rhoddodd Llywodraeth Cymru ymateb manwl (https://senedd.wales/media/hg5pnmap/gen-ld15034-e.pdf) i'r argymhellion a wnaed gan adroddiad y Pwyllgor | Wedi'i gwblhau |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | Amserlen<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 3.2<br>parhad | materion yn ymwneud ag effaith y pandemig ar ddarpariaeth gofal plant a gwaith chwarae. | Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol. | |
| 3.3 | Sicrhau bod y gefnogaeth i helpu awdurdodau lleol i gynllunio a darparu ar gyfer darpariaeth gwaith chwarae cynaliadwy yn eu harwain hefyd i ddefnyddio data o'r Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant a'r Asesiadau Digonolrwydd Chwarae. | Gweler 2.1 | Tymor byr |
| 3.4 | Ystyried effaith mentrau neu raglenni a ariennir o'r newydd sydd wedi'u dylunio i gefnogi adferiad wedi COVID-19 ac allai orgyffwrdd â neu ddyblygu darpariaeth gwaith chwarae sy'n bodoli eisoes. | Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn ystyried hyn os bydd cyllid newydd ar gael. | Tymor canolig |

**Argymhelliad allweddol 4: Sicrhau bod cyllid ac adnoddau digonol ar gyfer gweithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol yn ei chyfanrwydd.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn mewn egwyddor.

Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllid craidd i ariannu Chwarae Cymru, y sefydliad sy'n hyrwyddo hawl plant i chwarae, a chonsortiwm gofal plant Cwlwm sy'n cynnwys pum sefydliad sy'n darparu gwasanaeth integredig dwyieithog i sicrhau'r canlyniadau gorau posibl i blant a theuluoedd ledled Cymru.

Pan gyflwynwyd y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, cytunwyd gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru y byddai'n niwtral o ran cost. Cytunodd Llywodraeth Cymru i ddarparu cyllid i awdurdodau lleol drwy Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan pan fydd ar gael.

Ers cyflwyno'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ym mis Tachwedd 2012, mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau bod £30.330m o gyllid refeniw ar gael i awdurdodau lleol i'w galluogi i fodloni'r gofynion.

Ar gyfer blynyddoedd ariannol 2020-2021 a 2021-2022, dyfarnodd Llywodraeth Cymru gyfanswm o £8m o gyllid cyfalaf i awdurdodau lleol ar gyfer adfer wedi Covid. Rhoddodd yr arian cyfalaf yr hyblygrwydd i awdurdodau lleol brynu eitemau ar raddfa fawr ac adnewyddu meysydd chwarae a mynediad i feysydd chwarae; roedd hyn yn dibynnu ar y blaenoriaethau a nodwyd yn eu Hasesiadau Digonolrwydd Chwarae.

Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn parhau i adolygu opsiynau ariannu i gefnogi gweithredu ehangder llawn y Ddyletswydd Digonolrwydd Chwarae statudol wrth weithio tuag at ganlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Mae cydymffurfedd yr awdurdod lleol gyda gweithrediad y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'n cael ei gefnogi.
- Mae hawl plant i chwarae'n cael ei chydnabod fel thema sy'n traws-dorri o fewn meysydd polisi a rhaglenni a ariennir sy'n cael eu hanelu at blant, teuluoedd a chymunedau.
- Mae agwedd strategol awdurdod lleol cyflawn tuag at ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae'n cael ei ddatblygu a'i gynnal.
- Rydym yn delio gyda materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff y gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.
- Mae awdurdodau lleol yn derbyn gwell cefnogaeth i weithredu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae trwy ddyraniad mwy strategol ariannu ac adnoddau.
- Mae isadeiledd y sector chwarae gwirfoddol wedi cryfhau ac mewn sefyllfa well i ymgymryd â rolau strategol yn ogystal â throsglwyddo.

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 4.1 | Dynodi ffrwd ariannu ar gyfer rôl digonolrwydd cyfleoedd chwarae dynodedig, sydd wedi'i diffinio'n gwbl eglur, ym mhob awdurdod lleol yng Nghymru. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i ystyried y gofynion o ran cyllid i awdurdodau lleol allu cyflawni eu dyletswydd statudol. | Tymor hir |
| 4.2 | Sicrhau bod yr isadeiledd cenedlaethol, yn cynnwys y rôl a ddarperir gan Chwarae Cymru, yn gadarn ac wedi'i hariannu'n ddigonol i gefnogi disgwyliadau cynyddol chwarae a gwaith chwarae. | Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi gwerth mawr ar gyfleoedd chwarae a chwarae i blant. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllid craidd i ariannu Chwarae Cymru ac mae'n archwilio llwybrau i fanteisio i'r eithaf ar gyllid ar gyfer chwarae. | Tymor hir |
| 4.3 | Cynnal buddsoddiad blynyddol mewn digonolrwydd cyfleoedd chwarae (fel Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan) sy'n darparu lefel isafswm o ariannu ac sy'n ymateb i anghenion sy'n codi. | Gweler 4.1 | Tymor hir |
| 4.4 | Adolygu sut y mae buddsoddiadau blynyddol (fel Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan) yn cael eu dyrannu i awdurdodau lleol. Os oes angen, adolygu'r model i alluogi dyraniad strategol gwell o gyllid sydd ar gael. | Mae Llywodraeth Cymru yn darparu cyllid i'r 22 awdurdod lleol drwy'r Prosiect Gwyliau Gwaith Chwarae. Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried opsiynau ar gyfer rhoi cyllid i awdurdodau lleol er mwyn darparu cyfleoedd i chwarae. | Tymor hir |
| 4.5 | Sicrhau bod unrhyw gyfarwyddyd sy'n dod gyda rhaglenni ariannu'n pwysleisio ac atgyfnerthu rôl cymdeithasau chwarae gwirfoddol rhanbarthol a'r sector chwarae gwirfoddol. | Mae canllawiau cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer awdurdodau lleol yn annog gwaith gyda'r trydydd sector a grwpiau cymunedol wrth greu cyfleoedd chwarae. Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn parhau i godi ymwybyddiaeth mewn meysydd polisi allweddo yn Llywodraeth Cymru. | Tymor byr |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | Amserlen<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 4.6 | Sicrhau bod unrhyw ganllawiau ar gyfer rhaglenni ariannu cyflenwol yn egluro’n blaen ble gellir defnyddio’r cyllid fel eu bod yn cefnogi chwarae, gwaith chwarae a digonolrwydd chwarae. | Gweler 4.5 | Tymor byr |
| 4.7 | Craffu ar ddyraniad rhaglenni ariannu eraill i ddynodi i ba raddau y mae chwarae, gwaith chwarae a digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn cael eu cefnogi. | Bydd aelodau'r Bwrdd Gweithredu yn ystyried ffrydiau ariannu yn eu meysydd polisi ac yn adolygu'r opsiynau ar gyfer ariannu chwarae, gwaith chwarae a digonolrwydd chwarae. | Tymor byr |

**Argymhelliad allweddol 5: Cefnogi trosglwyddiad rhaglen wybodaeth i'r cyhoedd am yr hawl i chwarae.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i hyrwyddo hawl plant a phobl ifanc i chwarae a bydd yn parhau i weithio gyda'r sector i gefnogi cyflwyno rhaglen wybodaeth i'r cyhoedd i gyflawni canlyniad disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Mae pwysigrwydd chwarae ar gyfer iechyd a lles plant, a chymdeithas yn ehangach, yn cael ei ddeall yn well.

| **Cerrig milltir awgrymedig** | | **Cam gweithredu** | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 5.1 | Gweithio gyda Chwarae Cymru a darparu buddsoddiad parhaus digonol i sicrhau bod ei ymgyrch *Plentyndod Chwareus* gyda'r cyrhaeddiad ehangaf er mwyn cael yr effaith mwyaf. | Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio gyda Chwarae Cymru i dynnu sylw at Plentyndod Chwareus mewn cyfathrebu ehangach ac edrych ar ffyrdd o sicrhau'r effaith fwyaf. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ariannu a chefnogi lansiad ffilm Chwarae Cymru "dyma pam mae chwarae mor bwysig" sy'n dathlu ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd chwarae. | Tymor byr - parhaus |
| 5.2 | Adolygu a diweddaru gwefannau a gweithgarwch cyfathrebu eraill Llywodraeth Cymru a anelir at y cyhoedd, gan roi sylw penodol i sicrhau negeseuon cyson. | Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn parhau i godi ymwybyddiaeth a gweithio gyda meysydd polisi allweddol i sicrhau bod y negeseuon yn ymwneud â chwarae plant yn gyson.<br><br>Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn ystyried sut y gallwn ddefnyddio ein cyfathrebiadau yn ehangach i dynnu sylw at bwysigrwydd chwarae a sicrhau bod y negeseuon a roddir yn gyson. | Tymor canolig |

**Argymhelliad allweddol 6: Defnyddio’r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae’n ehangach i gwmpasu ystod eang o gyrff eraill.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn mewn egwyddor.

Cymru oedd y wlad gyntaf i ddeddfu ar gyfer chwarae fel rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, gan warantu hawl plant i chwarae drwy sicrhau bod awdurdodau lleol yn sicrhau cyfleoedd digonol, drwy'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Rhoddwyd dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i asesu a, chyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, sicrhau digon o gyfleoedd i blant chwarae yn eu hardaloedd. Gelwir hyn bellach yn 'Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae'. Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn parhau i weithio gyda'r sector a rhanddeiliaid allweddol i godi ymwybyddiaeth o'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac i ystyried y cerrig milltir awgrymedig wrth gyflawni canlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Mae hawl plant i chwarae’n cael ei chydnabod a’i gwreiddio mewn polisïau ac arferion cenedlaethol.

- Mae potensial y Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae i fynd i’r afael ag agendâu polisi cymdeithasol eraill yn cael ei wireddu.

| **Cerrig milltir awgrymedig** | | **Cam gweithredu** | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 6.1 | Sefydlu Siartr Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae (neu debyg) a mynd ati’n weithredol i annog ymrwymiad i’r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gan gyrff cyhoeddus sydd heb eu cynnwys ynddi. | Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn archwilio gweithredu Siarter Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyda Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Gyfleoedd Chwarae. Fodd bynnag, penderfyniad i Weinidogion Cymru fydd hwn yn y pen draw. | Tymor hir |
| 6.2 | Dynodi’r ystod eang o gyrff (fel Iechyd Cyhoeddus Cymru, byrddau iechyd lleol, cyrff llywodraethu ysgolion, Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, Cynghorau Tref | Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn archwilio'r opsiwn o ehangu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae gyda'r Bwrdd Gweithredu. Fodd bynnag, byddai hyn yn gofyn am newid deddfwriaethol ac felly'n | Tymor hir |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 6.2 parhad | a Chymuned) y gallai'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae fod yn berthnasol iddynt yn y dyfodol. | ddarostyngedig i broses ddeddfwriaethol y Senedd. | |
| 6.3 | Ystyried yr amserlen ddeddfwriaethol er mwyn archwilio ehangu'r Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae statudol i gyrff eraill y tu hwn i awdurdodau lleol Cymru. | Yn gysylltiedig â 6.1 a 6.2. | Tymor hir |

**Argymhelliad allweddol 7: Sicrhau bod yr hawl i chwarae wedi ei hymgorfforï yn ddigonol mewn offerynnau a phenderfyniadau polisi strategol.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn.

Mae chwarae a digonolrwydd chwarae wedi'i ymgorffori'n ddigonol yn adran Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yr Asesiad Effaith Integredig. Felly, credaf ein bod wedi cyflawni canlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Mae'r synergedd rhwng Dyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010 a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011 yn cael ei gydnabod a'i gyfrif.

| **Cerrig milltir awgrymedig** | | **Cam gweithredu** | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 7.1 | Ystyried sut i integreiddio a chynnwys materion sy'n ymwneud â chwarae a digonolrwydd cyfleoedd chwarae yn adran Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant yr Adolygiad Asesiad Effaith Integredig. | Mae'r cwestiwn canlynol yn Adran 3 y templed cyfredol ar gyfer yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant:<br><br>• *Sut y mae eich cynnig yn gwella neu'n herio hawliau plant, fel y'u nodir yn erthyglau CCUHP a'i Brotocolau Dewisol? Cyfeiriwch at yr erthyglau i weld pa rai sy'n berthnasol i'ch polisi eich hun.*<br><br>Mae swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn adolygu pob un o'r Erthyglau (gan gynnwys Erthygl 31 – yr hawl i chwarae) ac yn ystyried sut mae eu cynnig yn gwella neu'n herio pob Erthygl. Ystyrir CCUHP yn ei gyfanrwydd. | Tymor byr |

| **Argymhelliad allweddol 8: Sicrhau bod egwyddor chwarae fel mater o gyfiawnder gofodol yn cael ei chydnabod a'i deall trwy Bolisi Cynllunio Cymru.** |
|---|

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn.

Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn gweithio gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol i fwrw ymlaen â'r camau gweithredu i gefnogi gweithredu'r argymhelliad allweddol hwn. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn rhoi pwys ar ddiogelu mannau agored, caeau chwarae neu ddatblygiadau yng nghefn gwlad. Mae'n nodi y dylai datblygiadau newydd wella ansawdd lle a chreu strydoedd diogel, cymdeithasol ac atyniadol lle mae pobl am gerdded, beicio a mwynhau a lle gall plant chwarae. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cydnabod effaith Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, sy'n gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o gyfleoedd i blant chwarae. Bydd y Bwrdd Gweithredu yn ystyried ac yn bwrw ati i gyflawni canlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Mae *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16* yn gyson gyda'r diffiniadau o amgylcheddau chwarae a geir yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*.
- Mae canllawiau cynllunio yn adlewyrchu'r iaith a ddefnyddir yn *Cymru – gwlad lle mae cyfle i chwarae*.
- Mae'r holl weithwyr cynllunio proffesiynol, yn cynnwys datblygwyr tai, yn fwy abl i ystyried a darparu ar gyfer chwarae plant yn unol â chyfarwyddyd cenedlaethol.
- Ymgynghorir yn well gyda chymunedau pan mae gwaredu tir, yn cynnwys tiroedd ysgolion, yn cael ei ystyried.
- Mae mannau chwarae'n cael eu gwarchod pan fydd gwaredu tir yn cael ei ystyried.
- Mae gwarchod caeau chwarae a mannau agored rhag cael eu datblygu, fel yr amlinellir ym Mholisi Cynllunio Cymru – Rhifyn 11, yn cael ei adlewyrchu yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Awdurdodau Lleol.

| **Cerrig milltir awgrymedig** | | **Cam gweithredu** | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 8.1 | Adolygu a diwygio *Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16 (Chwaraeon, Hamdden a Mannau Agored)*, i gynnwys egwyddor cyfiawnder gofodol ar gyfer plant a | Mae'r Nodiadau Cyngor Technegol yn ymhelaethu ar y polisi a bennwyd ym Mholisi Cynllunio Cymru er mwyn sicrhau bod y polisi cynllunio cenedlaethol yn addas i'r diben. | Tymor hir |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | Amserlen<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 8.1<br>parhad | chymdogaethau cyfeillgar at blant y tu hwnt i fannau chwarae dynodedig, fel ei bod yn gymwys i bob gofod cyhoeddus, yn cynnwys tiroedd ysgolion. | Pan fydd Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 16 (Chwaraeon, Hamdden a Gofod Agored) yn cael ei ddiwygio, bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn cydweithio i ystyried Polisi Cynllunio Cymru er mwyn sicrhau bod cyfleoedd i chwarae yn cael ystyriaeth briodol. | |
| 8.2 | Defnyddio canllawiau cynllunio i sicrhau bod Asesiadau Digonolrwydd Chwarae'n cyfrannu at dystiolaeth allweddol i hysbysu Cynlluniau Datblygu Lleol, Cynlluniau Bro a chyfarwyddyd polisi trafnidiaeth a gofodol eraill. | Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod Polisi Cynllunio Cymru yn annog awdurdodau lleol i ystyried cyfleoedd i chwarae ar draws y broses gynllunio ac yn eu cyfarwyddo i ymgorffori ac ystyried gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau fel rhan o'u prosesau cynllunio. | Tymor hir |
| 8.3 | Cefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu canllawiau cynllunio atodol, gan gyfeirio at *Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach* Iechyd Cyhoeddus Cymru. | Fe wnaeth Llywodraeth Cymru gomisiynu Iechyd Cyhoeddus Cymru i ddatblygu casgliad o ddogfennau o'r enw **Cynllunio a Galluogi Amgylcheddau Iach** (https://www.llyw.cymru/polisi-cynllunio-cymru) i fynd i'r afael â lefelau cynyddol o ordewdra ar draws Cymru. Mae'r dogfennau'n cyfrannu at greu amgylcheddau iach, gan gynnwys pwysau iach, drwy nodi pwysigrwydd cynllunio lleol a hwyluso amgylcheddau egnïol. | Tymor byr |
| 8.4 | Newid yr iaith mewn canllawiau cynllunio o 'gyfleoedd chwarae' i 'gyfleoedd i chwarae' er mwyn annog ffordd o feddwl ehangach sy'n cynnwys mwy | Yn gysylltiedig â 8.1 ac 8.2. | Tymor hir |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 8.4<br>parhad | na mannau chwarae dynodedig. | | |
| 8.5 | Sicrhau bod yr egwyddor o warchod gofodau agored, yn cynnwys tiroedd ysgolion a mannau chwarae, yn cael ei chynnwys yng Nghanllawiau Cynllunio Atodol Awdurdodau Lleol. | Mae Polisi Cynllunio Cymru yn gofyn am ystyried diogelu mannau agored, caeau chwarae neu ddatblygiadau yng nghefn gwlad.<br><br>Mae'r polisi'n nodi y dylid diogelu pob maes chwarae rhag cael ei ddatblygu, boed yn eiddo i gorff cyhoeddus, preifat neu wirfoddol, ac eithrio:<br><br>• "lle y gellir cadw a gwella cyfleusterau orau drwy ailddatblygu rhan fach o’r safle;<br>• lle y darperir darpariaeth arall yn yr un ardal o'r un budd i'r gymuned, gan osgoi colli'r ddarpariaeth dros dro;<br>• lle y mae gormod o ddarpariaeth o’r fath yn yr ardal."<br><br>Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda chydweithwyr i sicrhau bod Polisi Cynllunio Cymru a chanllawiau cysylltiedig eraill yn annog ystyried cyfleoedd i chwarae. | Tymor hir |
| 8.6 | Cynhyrchu nodyn cyfarwyddyd polisi cynllunio (PPG) ar gyfer datblygwyr, sy’n mynnu y dylent gofio ystyried yr Asesiad Digonolrwydd Chwarae wrth gynllunio datblygiadau newydd. | Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymdrin â'r gofyniad hwn drwy newidiadau i Bolisi Cynllunio Cymru. | Tymor hir |

| **Argymhelliad allweddol 9: Sicrhau bod safbwyntiau a phrofiadau plant yn hysbysu'r ffyrdd y mae cymdogaethau'n cael eu cynllunio a'u rheoli.** |
|---|

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn.

Bydd y Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Gyfleoedd Chwarae yn ystyried gwaith ac argymhellion y Rhwydwaith Cenedlaethol Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac yn gweithio gyda'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Democrataidd i fwrw ymlaen â chamau gweithredu i gefnogi canlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Ymatebir i farn y plant ac mae plant yn cael eu cefnogi i fod yn asiantau gweithredol ac i gyfranogi yn y broses digonolrwydd cyfleoedd chwarae.
- Mae Asesiadau Digonolrwydd Chwarae a chynlluniau gweithredu, yn ogystal â Chynlluniau Datblygu Lleol a Chynlluniau Bro yn adlewyrchu barn, anghenion a dewisiadau plant yn well.

| **Cerrig milltir awgrymedig** | | **Cam gweithredu** | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 9.1 | Comisiynu a chefnogi ymchwil i gyfiawnder gofodol a chyfleoedd i chwarae ar gyfer grwpiau penodol o blant, yn cynnwys rhai sy'n byw mewn ardaloedd lleol. Sicrhewch eich bod yn cynnwys argymhellion ar gyfer gweithredu. | Bydd y Bwrdd Gweithredu'r Adolygiad o Gyfleoedd Chwarae yn ystyried argymhellion gan y Rhwydwaith Cenedlaethol Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae o ran ymchwil i gyfiawnder gofodol a chyfleoedd i chwarae. | Tymor canolig |
| 9.2 | Sicrhau bod yr adolygiad o'r Pecyn Cymorth Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn annog a chefnogi awdurdodau lleol i ddatblygu rhaglenni ymgynghori cyfeillgar at blant ar lefel cymdogaeth. Dylai gynnwys ymchwil tra-leol gyda phlant gan ddefnyddio dulliau gofodol a chreadigol. | Mae hyn yn gysylltiedig â chamau gweithredu yn 2.2 a 2.3, a bydd yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith o adolygu, adnewyddu ac ail-lansio pecyn cymorth a chanllawiau'r Asesiad Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. | Tymor byr |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 9.3 | Annog Cynghorau Tref a Chymuned i ddefnyddio eu pŵer i benodi cynrychiolwyr ieuenctid neu i sefydlu cynghorau ieuenctid, fel yr amlinellir ym Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. | Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu Grŵp Gorchwyl a Gorffen Iechyd Democrataidd i gynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad pobl ifanc mewn cynghorau cymuned. Fel rhan o'r broses o ddatblygu a gweithredu argymhellion y Bwrdd Ieuenctid Dros Dro, mae gwaith yn mynd rhagddo i ystyried sut i sefydlu model llywodraethu a arweinir gan bobl ifanc. | Tymor canolig |

**Argymhelliad allweddol 10: Sicrhau bod trefniadau diogelu digonol mewn lleoliadau gwaith chwarae.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn.

Mae diogelu ac amddiffyn plant yn gyfrifoldeb i bawb.

Ym mis Ionawr 2022 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl:Cod Ymarfer Diogelu*, sy'n rhoi cyngor i unrhyw un sy'n cynnig gwasanaethau neu weithgareddau i blant ac oedolion a allai fod yn wynebu risg. Mae'r Cod yn nodi disgwyliadau Llywodraeth Cymru mewn perthynas â threfniadau diogelu craidd ac yn galluogi unigolion, grwpiau a sefydliadau i ddangos bod camau rhesymol yn cael eu cymryd i sicrhau diogelwch plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

Yn ystod tymor y Senedd hon, mewn ymateb i Argymhelliad 13 o'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol - sef gosod ddyletswydd statudol ar ystod eang o unigolion sy'n gweithio'n agos â phlant i roi gwybod am blant sydd mewn perygl o gam-drin rhywiol – mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i adeiladu ar y Cod Ymarfer Diogelu drwy ymgysylltu'n eang ac archwilio safbwyntiau ar sicrhau bod gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau neu'n cynnig gweithgareddau i blant ac oedolion a allai fod yn wynebu risg drefniadau diogelu cymesur ac effeithiol ar waith. Bydd aelodau'r Bwrdd Gweithredu yncymryd rhan yn y gweithgarwch hwn.

Yn ogystal, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi'r *Ffrmwaith Ansawdd Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar* yn ddiweddar sy'n dwyn ynghyd y gofynion allweddol ar gyfer darparu'r math o ddarpariaeth a safon y ddarpariaeth yr ydym ei heisiau yng Nghymru. Mae'n egluro bod diogelu yn golygu cadw pobl yn ddiogel rhag cael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio a gwybod beth i'w wneud os yw plentyn yn wynebu risg. Mae'n cynnwys dolenni i Weithdrefnau Diogelu Cymru a hyfforddiant ymwybyddiaeth diogelu Gofal Cymdeithasol Cymru. Mae'r Pecyn Cymorth Ymarfer Myfyriol, sy'n cyd-fynd â'r fframwaith, yn cynnwys safon ansawdd o ran diogelu babanod a phlant ifanc rhag niwed, camdriniaeth ac esgeulustod.

Cyhoeddwyd y Fframwaith Ansawdd ar ffurf drafft wrth i waith ymgysylltu fynd rhagddo ag ystod eang o ymarferwyr ar ei weithredu. Y nod yw cyhoeddi fersiynau terfynol o'r dogfennau yn haf 2024. Byddwn yn cynnal gweithgareddau i gefnogi canlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Mae trefniadau diogelu mewn lleoliadau gwaith chwarae yn cael eu deall a’u gweithredu.

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 10.1 | Comisiynu adolygiad annibynnol o’r trefniadau ar gyfer diogelu plant mewn lleoliadau ble nad ydynt yn cael eu hebrwng gan eu rhieni neu eu gofalwyr, heblaw am ysgolion a cholegau ac yn cynnwys lleoliadau sy’n cael eu cwmpasu gan Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y’i diwygiwyd) ar hyn o bryd. | Bydd hyn yn rhan o'r ymrwymiad a wnaed gan Lywodraeth Cymru, mewn ymateb i Argymhelliad 13 o'r Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Plant yn Rhywiol - sef ymgysylltu'n eang ac archwilio safbwyntiau ar sicrhau bod gan y rhai sy'n darparu gwasanaethau neu'n cynnig gweithgareddau i blant ac oedolion a allai wynebu risg drefniadau diogelu cymesur ac effeithiol ar waith. | Tymor hir |
| 10.2 | Gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau bod lleoliadau gwaith chwarae heb eu rheoleiddio’n ymwybodol o’r Côd Gwirfoddol o Ymarfer Diogelu a chofrestru i ymrwymo i’w ddefnyddio’n ymarferol. | Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda rhanddeiliaid allweddol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r adroddiad Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl: Cod Ymarfer Diogelu ac yn annog ei fabwysiadu yn eu lleoliadau.<br><br>Cafodd y Cod, a gyhoeddwyd ac a raeadrwyd ym mis Ionawr 2022, ei gynllunio i godi ymwybyddiaeth a rhoi cyngor i unrhyw un sy'n cynnig gweithgareddau i blant neu oedolion a allai fod yn wynebu risg, ar gymryd camau rhesymol i helpu i'w diogelu rhag niwed.  Gellir ei fabwysiadu a'i weithredu mewn unrhyw leoliad ac mae'n cynnwys dolen i Chwarae Cymru, yn ogystal â ffynonellau cymorth eraill. | Tymor byr - parhaus |

| **Argymhelliad allweddol 11 Adolygu rheoliadau gwarchod plant a gofal dydd a gorchmynion sy’n ymwneud â gwaith chwarae.** |
|---|

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn.

Bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried canlyniad yr adolygiad a wnaed mewn perthynas â Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'u diwygiwyd), y Safonau Gofynnol Cenedlaethol a'r gofynion deddfwriaethol sy'n sail i gofrestru lleoliadau chwarae mynediad agored er mwyn bwrw ati i gyflawni canlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Mae defnydd cymesur o'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael ei ddeall a’i weithredu ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae.
- Mae system drylwyr sy’n sicrhau trefniadau diogelu ac addasrwydd staff yn cael ei chynnal ym mhob lleoliad gwaith chwarae.
- Mae rheoliadau, cofrestru ac archwilio sy’n effeithio ar leoliadau gwaith chwarae’n cael eu diweddaru a’u gwneud yn fwy addas i’r diben.

| **Cerrig milltir awgrymedig** | | **Cam gweithredu** | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 11.1 | Adolygu ymarfer a throsglwyddiad cyfundrefn arolygu Arolygiaeth Gofal Cymru sy’n ymwneud â gwaith chwarae i wella ei addasrwydd i’r diben o fewn y rheoliadau cyfredol. Dylai hyn hysbysu newidiadau i’r Safonau Gofynnol Cenedlaethol (SGC) a rheoleiddio ac archwilio’r holl leoliadau gwaith chwarae a dylai hefyd gynnwys datblygiad SGC unigol ar gyfer lleoliadau gwaith chwarae mynediad agored. | Bydd swyddogion Polisi Chwarae a Pholisi Gofal Plant yn gweithio gydag Arolygiaeth Gofal Cymru a'r sector gwaith chwarae i adolygu sut mae'r drefn gofrestru ac arolygu yn ymwneud â lleoliadau chwarae mynediad agored yn cael ei gweithredu'n ymarferol.<br><br>Bydd y swyddogion hyn yn ystyried newidiadau pellach i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Gofal Plant a Reoleiddir i blant hyd at 12 oed a gafodd eu diweddaru ym mis Mai 2023 ac  yn ymgynghori ar ddiwygiadau posibl i'r Reoliadau a'r Safonau. | Tymor canolig |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 11.2 | Adolygu ac ymgynghori ar Orchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd), sy'n gofyn am gofrestru pob darpariaeth sy'n rhedeg am dros ddwy awr y diwrnod neu chwe diwrnod y flwyddyn. Adolygu eithriadau hyfforddi a dysgu a gwahardd cofrestru gwirfoddol lleoliadau o'r fath. | Ar hyn o bryd mae Llywodraeth Cymru yn adolygu Gorchymyn Eithriadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) i nodi unrhyw faterion perthnasol ac a yw'n dal yn addas i'r diben. Bydd swyddogion polisi yn ymgysylltu â rhanddeiliaid mewnol / allanol perthnasol i nodi'r materion a'r atebion posibl. Bydd unrhyw newidiadau arfaethedig yn destun ymgynghoriad. | Tymor canolig |
| 11.3 | Adolygu a diweddaru'r diffiniad o waith chwarae mynediad agored a'r lleoliadau ble mae'n digwydd a gwneud adolygiadau perthnasol i'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol ar gyfer Darpariaeth Gofal Plant a Reoleiddir. | Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn gweithio gyda Chwarae Cymru i adolygu a diweddaru'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn ôl y gofyn. | Tymor canolig |
| 11.4 | Diwygio'r amod yn Rheoliadau Gwarchod Plant a Gofal Dydd (Cymru) 2010 (fel y'i diwygiwyd) i gofrestru safle lleoliad fel bod gwasanaethau chwarae mynediad agored peripatetig a lleoliadau y tu allan i oriau ysgol yn gallu cofrestru unwaith gydag agwedd risg-budd at ychwanegu lleoliadau ychwanegol. | Bydd Llywodraeth Cymru yn cydweithio ag Arolygiaeth Gofal Cymru a rhanddeiliaid i archwilio'r newidiadau sydd eu hangen i'r broses gofrestru er mwyn galluogi gwasanaethau chwarae mynediad agored peripatetig a lleoliadau y tu allan i'r ysgol i gofrestru unwaith gyda dull risg-budd o ychwanegu lleoliadau ychwanegol. | Tymor canolig |

| Argymhelliad allweddol 12: Datblygu isadeiledd strategol ar gyfer datblygu'r gweithlu gwaith chwarae. |
|---|

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gefnogi ymarferwyr gofal plant a gwaith chwarae i godi eu lefelau sgiliau trwy gymwysterau, mynediad at lwybrau hyfforddi strwythuredig a llwybrau gyrfa clir. Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r cyrff dyfarnu cymwysterau, Gofal Cymdeithasol Cymru a rhanddeiliaid i ystyried cymorth sgiliau sector i weithwyr chwarae. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn cydnabod bod y gweithlu yn darparu cefnogaeth hanfodol ym mlynyddoedd cynharaf bywyd plentyn, gan osod sylfeini cadarn ar gyfer eu datblygiad gwybyddol, emosiynol a chymdeithasol parhaus.

Mae'r [Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar] wedi'i seilio ar y rhagosodiad y dylai plant o bob cefndir gael y dechrau gorau mewn bywyd. Uchelgais hirdymor y cynllun yw archwilio cyflwyno cofrestriad proffesiynol ar gyfer y gweithlu gofal plant a gwaith chwarae. Bydd swyddogion polisi yn adolygu'r camau a gymerwyd wrth weithio tuag at ganlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Mae rolau a chyfrifoldebau am gefnogaeth sgiliau sector yn cael eu deall ac mae gan y sector gwaith chwarae gynrychiolaeth strategol glir.
- Mae cymwysterau gwaith chwarae'n addas ac yn cyflawni anghenion y sector.
- Mae gwaith chwarae'n cael ei gydnabod fel rhan bwysig o'r gweithlu plant.
- Mae mecanwaith ar gyfer asesu addasrwydd staff yn cael ei weithredu.
- Mae darparwyr gwaith chwarae'n datblygu dealltwriaeth gyffredin o'r hyn sy'n cyfrif fel gwaith chwarae o safon a sut y gellir ei gyflawni.

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | Amserlen<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 12.1 | Gwneud rôl Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) yn fwy ffurfiol, fel un o ymgyngoreion allweddol Cymwysterau Cymru i gefnogi ystyried ceisiadau newydd i | Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi trafodaethau rhwng Cyngor Addysg a Hyfforddiant Gwaith Chwarae Cymru (PETC Cymru) a Chymwysterau Cymru i benderfynu ar rôl barhaus PETC Cymru mewn perthynas â chymwysterau gweithwyr chwarae. | Tymor canolig |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 12.1<br>parhad | gymeradwyo cymwysterau ar gyfer gwaith chwarae. | Dros y tymor hwy, bydd gwaith yn cael ei wneud gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, gyda'r nod o gynnig cymorth sgiliau sector i weithwyr chwarae.<br><br>Caiff hyn ei gyflawni drwy ddiwygio Deddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 a fydd yn galluogi ymestyn y diffiniadau o weithiwr gofal cymdeithasol i gynnwys pob gweithiwr gofal plant a gwaith chwarae. | |
| 12.2 | Fel trefniant tymor byr i ganolig, ffurfioli a sicrhau adnoddau ar gyfer y trefniant presennol o gynrychiolaeth sgiliau sector a ddarperir gan PETC Cymru gyda Chwarae Cymru’n darparu’r ysgrifenyddiaeth a chefnogaeth. | Yn gysylltiedig â chamau gweithredu yn 12.1 | |
| 12.3 | Yn y tymor canolig i’r tymor hir, ystyried sefydliad priodol i gydlynu’r gwahanol swyddogaethau cefnogaeth sgiliau sector ar gyfer gwaith chwarae yng Nghymru. Dylai hyn ystyried rolau esblygol PETC Cymru, Gofal Cymdeithasol Cymru a Chyngor y Gweithlu Addysg, yn ogystal â Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol. | O ganlyniad i ddiwygiadau i Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016, bwriad Llywodraeth Cymru yw y bydd Gofal Cymdeithasol Cymru yn darparu cymorth sgiliau sector i weithwyr gwaith chwarae. | Tymor hir |
| 12.4 | Defnyddio canfyddiadau o’r adolygiad annibynnol i | Sefydlwyd Gweithgor Cofrestru Proffesiynol yn 2022 ac mae'n cynnwys | Tymor hir |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 12.4<br>parhad | gofrestriad proffesiynol y gweithlu blynyddoedd cynnar a gofal plant i hysbysu penderfyniadau am system gofrestru broffesiynol ar gyfer gwaith chwarae. | cynrychiolwyr o sefydliadau gwaith chwarae. Bydd ymgynghoriad yn cael ei lansio yn hydref 2023 i geisio barn y sector ynghylch cofrestru, gan gynnwys a ddylid cynnwys lleoliadau gwaith chwarae (heb eu cofrestru a'u cofrestru) mewn unrhyw gofrestr yn y dyfodol. | |
| 12.5 | Ymgynghori ar y gefnogaeth ar gyfer cofrestriad proffesiynol y gweithlu gwaith chwarae. Os y'i cefnogir gan y sector, dynodi corff priodol i ymgymryd â'r rôl, tra'n sicrhau trefniadau cytbwys rhwng rheoleiddwyr. | Gweler 12.4 | Tymor hir |
| 12.6 | Cefnogi a sicrhau adnoddau ar gyfer y sector gwaith chwarae er mwyn gweithredu'r cynlluniau sicrhau ansawdd diweddaraf a ddatblygir gan ac ar gyfer y sector. | Cyhoeddwyd y Fframwaith Ansawdd ar gyfer Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar ar ffurf drafft ym mis Mehefin 2023 a bydd yn cael ei gwblhau ym mis Mehefin 2024 yn dilyn adborth gan ystod eang o ymarferwyr. Nod y Fframwaith yw rhoi arweiniad i arweinwyr ac ymarferwyr ar draws lleoliadau gofal plant a gwaith chwarae ac ysgolion ar ddarparu darpariaeth o ansawdd uchel i blant 0 - 5 oed.<br><br>Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllid craidd i ariannu Chwarae Cymru, a gwblhaodd 'Chwarae o Safon - y marc ansawdd gwaith chwarae' yn ddiweddar. | Tymor byr |

| **Argymhelliad allweddol 13 Sicrhau bod cyllid digonol ar gael ar gyfer datblygu'r gweithluoedd chwarae a gwaith chwarae.** |
|---|

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn.

Mae uchelgais Llywodraeth Cymru i ddatblygu gweithlu gofal plant a gwaith chwarae medrus sy'n cael ei ystyried yn yrfa o ddewis, wedi'i nodi yn ein cynllun gweithlu 10 mlynedd [Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar](). Mae'r cynllun yn cael ei adolygu a'i adnewyddu eleni gyda ffocws clir ar sut y gallwn gefnogi cynaliadwyedd, a recriwtio a chadw yn y sector. Rydym wedi ymrwymo i gefnogi ymarferwyr gofal plant a gwaith chwarae i godi eu lefelau sgiliau trwy gymwysterau, mynediad at lwybrau hyfforddi strwythuredig a llwybrau gyrfa clir. Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn adolygu gwaith traws-bolisi a chamau gweithredu wrth weithio tuag at ganlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Cynllunnir ar gyfer trosglwyddiad cymwysterau gwaith chwarae i'r dyfodol, a'i ariannu'n strategol.
- Defnyddir gwerthusiadau a chanfyddiadau ymchwil i'r gweithlu i gynllunio'n strategol ar gyfer datblygu'r gweithlu.
- Rydym yn mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw staff yn y gweithlu gwaith chwarae.
- Mae anghenion chwarae plant ac effaith penderfyniadau ar chwarae'n cael eu cydnabod gan ystod eang o weithwyr proffesiynol.

| **Cerrig milltir awgrymedig** | | **Cam gweithredu** | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 13.1 | Ystyried gofynion penodol y sector gwaith chwarae a gweithwyr chwarae yn natblygiad cynlluniau ariannu i'r dyfodol i gefnogi hyfforddiant a datblygiad proffesiynol yn y sector. | Bwriad y Rhaglen Hyfforddi a Chymorth yw disodli'r rhaglen Cynnydd i Lwyddiant a ariannwyd gan Ewrop trwy ariannu tri chymhwyster gwaith chwarae ar wahân. | Tymor byr |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 13.2 | Cynllunio ar gyfer ac ariannu opsiwn cynaliadwy i ddisodli'r rhaglen Cynnydd ar gyfer Llwyddiant ddaw i ben ym mis Mawrth 2023. Defnyddio canfyddiadau *Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru* 2021 i sicrhau datblygiad strategol a mabwysiadu agwedd gydweithredol yn hytrach nag agwedd gystadleuol tuag at ddyrannu cyllid ar gyfer hyfforddiant a chymwysterau. | Yn gysylltiedig â 13.1 | Tymor byr |
| 13.3 | Defnyddio canfyddiadau o Asesiadau Digonolrwydd Chwarae, Asesiadau o Ddigonolrwydd Gofal Plant ac *Astudiaeth Gweithlu Chwarae Cymru 2021* i hysbysu adolygiad arfaethedig a gweithrediad Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a Blynyddoedd Cynnar 10 mlynedd Llywodraeth Cymru. | Rhagwelir y bydd fersiwn ddiwygiedig o'r Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar yn cael ei gyhoeddi yn hydref 2023. Y bwriad yw y bydd hyn yn diweddaru'r cynllun 10 mlynedd i adlewyrchu'r cynnydd hyd yma a'r gwaith sydd i'w wneud dros weddill tymor y Senedd hon. | Tymor byr |
| 13.4 | Ymrwymo i ariannu datblygiad proffesiynol parhaus y gweithlu chwarae ehangach, er enghraifft trwy hyfforddiant, rhaglenni datblygiad proffesiynol neu gynadleddau amlasiantaethol. | Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio cyllid craidd i ariannu Chwarae Cymru ac mae ganddynt amcan ariannu penodol o ran datblygu'r gweithlu, sy'n eu galluogi i ddarparu hyfforddiant a datblygiad proffesiynol parhaus i'r gweithlu ehangach. | Tymor byr |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 13.5 | Gweithio gyda'r sector i gytuno ar arweiniad ar raddfeydd cyflog, arferion recriwtio ac amodau a thelerau ar gyfer gwaith chwarae. | Mae cyngor ar arferion recriwtio ar gael ar hyn o bryd drwy Gofal Cymdeithasol Cymru ar gyfer y sector gofal plant a gwaith chwarae cyfan. Byddwn yn ystyried sut y gallwn fynd ymhellach ar y materion hyn fel rhan o'r broses o adolygu ac adnewyddu'r Cynllun Gweithlu Gofal Plant, Chwarae a'r Blynyddoedd Cynnar sydd i'w gyhoeddi yn hydref 2023. | Tymor hir |
| 13.6 | Defnyddio ymchwil digonolrwydd cyfleoedd chwarae i hysbysu datblygiad a throsglwyddiad hyfforddiant traws-broffesiynol ar faterion cyfiawnder gofodol ar gyfer plant, i gynnwys yn benodol y bobl hynny sy'n ymwneud â chynllunio, teithio llesol a'r heddlu. | Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn bwrw ati i weithredu argymhellion y Rhwydwaith Cenedlaethol Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae mewn perthynas â'r gofynion hyfforddiant. | Tymor byr |

| **Argymhelliad allweddol 14: Hyrwyddo pwysigrwydd chwarae a'r defnydd o diroedd ysgol fel ased cymunedol ar gyfer chwarae trwy'r polisi ysgolion bro.** |
|---|

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn.

Mae Canllawiau Llywodraeth Cymru ar gyfer Ysgolion Bro yn cydnabod pwysigrwydd chwarae o ran cefnogi lles plant a phobl ifanc, a sicrhau bod ganddynt yr amser a'r lle i chwarae ac i fynegi eu hunain. Mae ysgolion bro yn rhoi'r plentyn wrth wraidd eu dull gweithio. Maent yn rhan allweddol o'r gymuned leol, gan gynnig cyfleoedd i ddefnyddio cyfleusterau'r ysgol ar gyfer dysgu oedolion, lles, chwarae, chwaraeon, a gweithgareddau diwylliannol a chymunedol eraill. Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn adolygu cynnydd gwaith traws-bolisi a chydweithio i fodloni canlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Hwylusir gwerthfawrogiad llawn o werth chwarae a sut i'w gefnogi er ei fwyn ei hun mewn ysgolion.
- Mae asesiad risg-budd fel elfen allweddol o bolisi ac ymarfer, wedi'i wreiddio mewn ysgolion.
- Mae'r hawl i chwarae'n cael ei chefnogi'n well trwy bob agwedd o'r diwrnod ysgol.
- Mae ysgolion yn cael eu cydnabod a'u defnyddio fel lleoliadau i chwarae mewn cymdogaethau.

| **Cerrig milltir awgrymedig** | | **Cam gweithredu** | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 14.1 | Sicrhau bod pwysigrwydd chwarae wedi ei wreiddio yn hyfforddiant a chronfa wybodaeth holl staff yr ysgol, yn cynnwys uwch-arweinyddion. | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i ystyried sut mae pwysigrwydd chwarae yn cael ei ymgorffori yn yr adnoddau dysgu proffesiynol ar gyfer ymarferwyr ysgol. | Tymor canolig |
| 14.2 | Sicrhau bod datganiad lefel uchel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar chwarae ac asesu risg-budd (ARB) yn cael ei gynnwys mewn unrhyw arweiniad ar gyfer ysgolion sy'n ymwneud â iechyd a | Bydd ystyriaeth yn cael ei roi i gynnwys datganiad lefel uchel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ar chwarae ac asesiadau risg-budd mewn canllawiau i ysgolion ar ddefnyddio cyfleusterau ysgol. | Tymor canolig |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 14.2<br>parhad | diogelwch am chwarae, gweithgareddau, a'r defnydd o gyfleusterau ysgol. | | |
| 14.3 | Cyhoeddi canllawiau i gyrff llywodraethu ysgolion yn eu hatgoffa o hawl plant i chwarae ac am y disgwyliad i wneud ynsiŵr bod eu hysgol yn darparuar gyfer yr hawl hon. | Bydd Llywodraeth Cymru yn diweddaru Pennod 25 o'r Canllaw i'r gyfraith i lywodraethwyr ysgolion sy'n egluro'r cyfrifoldebau iechyd a diogelwch a materion sy'n berthnasol i iechyd, diogelwch a lles disgyblion. Bydd y canllawiau diwygiedig yn cael eu rhannu gyda'r cyrff llywodraethu perthnasol.<br><br>Wrth ddiweddaru'r canllawiau ar gyfer defnyddio cyfleusterau ysgol y tu hwnt i'r diwrnod ysgol, bydd Llywodraeth Cymru yn ystyried yr hyn y gellir ei gynnwys o safbwynt ysgolion bro ac yn cynnwys gwybodaeth am gyfleoedd chwarae. | Tymor byr |
| 14.4 | Diweddaru'r canllawiau ar gyfer defnyddio cyfleusterau'r ysgol y tu allan i'r diwrnod ysgol i gynnwys gwybodaeth am annog cyfleoedd i chwarae a darpariaeth gwaith chwarae. Defnyddio'r arweiniad hwn i hysbysu dyraniad grantiau i ysgolion. | Yn gysylltiedig â 14.3 | Tymor canolig |
| 14.5 | Sicrhau bod unrhyw ddeddfwriaethau a ddatblygir i gefnogi cyflwyniad y fenter ysgolion bro yn cynnwys cyfeiriadau amlwg at y *Ddyletswydd Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae* a osodir ar awdurdodau lleol. | Nid oes deddfwriaeth yn cael ei chynllunio ar hyn o bryd ar gyfer ysgolion bro. | Amherthnasol |

**Argymhelliad allweddol 15: Cynyddu a gwella amserau chwarae ac egwyl mewn ysgolion.**

**Ymateb Llywodraeth Cymru:** Derbyn.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod amseroedd chwarae ac egwyl yn rhan bwysig o'r diwrnod ysgol, pan gaiff plant eu cefnogi i gael amser i chwarae a chymdeithasu gyda'u cyfoedion ynghyd ag amser i fwyta prydau iach. Bydd swyddogion Polisi Chwarae yn adolygu'r camau a gymerwyder mwyn bodloni canlyniadau disgwyliedig y Grŵp Llywio a amlinellir isod:

- Mae amser chwarae'n cael ei flaenoriaethu a'i ddiogelu fel rhan o bolisïau ysgol gyfan.
- Mae lleoliadau addysg ar gyfer pob oedran yn darparu mannau awyr agored a dan do o ansawdd ar gyfer chwarae ac mae'r ddau'n cael eu hystyried yr un mor bwysig mewn asesiadau.
- Mae'r broses arolygu'n cydnabod asesu risg-budd.

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | Amserlen<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 15.1 | Gofyn i Estyn arolygu ac adrodd ar amser chwarae yn erbyn y meincnod a ddarperir gan ganllawiau digonolrwydd chwarae. | Bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gydag Estyn i gefnogi pwysigrwydd chwarae i blant mewn ysgolion. | Tymor byr |
| 15.2 | Gofyn i Estyn adrodd ar achosion o gael gwared - neu fygwth cael gwared ar amser chwarae fel cosb. | Yn gysylltiedig â 15.1 | Tymor byr |
| 15.3 | Sicrhau bod cynlluniau cyfredol ar gyfer diwygio'r diwrnod ysgol yn cynnwys canllawiau ar gyfer yr hyd | Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi pwysigrwydd amseroedd chwarae i blant a phobl ifanc. Mae'r gwaith ar strwythur a'r defnydd o amser ysgol yn | Tymor byr |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | Amserlen<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 15.3<br>parhad | byrraf ar gyfer egwyliau ac amserau chwarae mewn ysgolion. | parhau yng nghyd-destun diwygiadau addysg ehangach Llywodraeth Cymru. | |
| 15.4 | Sicrhau bod y fenter i ymestyn y diwrnod ysgol yn cynnwys opsiwn i blant ddefnyddio'r amser ychwanegol i chwarae. | Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar draws meysydd polisi gan sicrhau bod canllawiau ac unrhyw ddogfennaeth / gwybodaeth ategol ar gyfer cyrff llywodraethu yn gyfredol ac yn adlewyrchu unrhyw newidiadau. | Tymor hir |
| 15.5 | Sicrhau, drwy ganllawiau dylunio, bod dyluniad mewnol ysgolion, tirlunio a dyluniad meysydd chwarae'n cefnogi cynnwys nodweddion chwarae mewn cynlluniau ysgolion newydd o'r cychwyn cyntaf. | Bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio ar draws meysydd polisi gan sicrhau bod canllawiau ac unrhyw wybodaeth ategol yn cefnogi cynnwys nodweddion chwarae mewn seilwaith ysgolion a gofal plant newydd. | Tymor byr |
| 15.6 | Sicrhau bod ysgolion yn cael eu cyfeirio at ganllawiau arfer da i'w galluogi i ddarparu cyfleoedd i blant chwarae'r tu allan bob dydd. | Yn gysylltiedig â 15.4 | Tymor byr |
| 15.7 | Sicrhau bod Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru yn gyfarwydd gydag ac yn meddu ar ddealltwriaeth dda o ddatganiad lefel uchel yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) ar chwarae ac ARB a'i fod yn hysbysu eu harchwiliadau penodol yn briodol. | Mae Estyn ac Arolygiaeth Gofal Cymru wedi ymrwymo i gysylltu ar y mater hwn fel rhan o'u rhaglen arolygu ar y cyd.<br><br>Fel rhan o raglen dysgu proffesiynol Estyn, mae'r Arolygiaeth wedi ymrwymo i sicrhau bod gan arolygwyr ddealltwriaeth dda o ddatganiad lefel uchel yr HSE ar chwarae ac asesiadau risg-budd i lywio ei waith ac mae'n gwbl | Tymor byr |

| Cerrig milltir awgrymedig | | Cam gweithredu | **Amserlen**<br>**Tymor byr**: erbyn Mawrth 2024<br>**Tymor canolig**: erbyn Mawrth 2025<br>**Tymor hir**: erbyn Mai 2026 |
|---|---|---|---|
| 15.7<br>parhad | | ymwybodol o'r meincnod a ddarperir gan y canllawiau digonolrwydd chwarae.<br><br>Mae arolygwyr gofal plant a chwarae Arolygiaeth Gofal Cymru wedi derbyn hyfforddiant ar bwysigrwydd cymryd risg a gafodd ei ddarparu ar y cyd gan Chwarae Cymru a Chlybiau Plant Cymru Kids' Clubs ar chwarae mentrus ac asesiadau risg-budd. Mae gan Arolygiaeth Gofal Cymru hefyd arolygwyr sy'n hyrwyddwyr chwarae. | |